Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Talyllychau Nos Fawrth 4 Ebrill, 2023 am 7.30 p.m. yn dilyn ymweliad safle â Chae'r Gymuned am 7.00 p.m.
Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol yn y cyfarfod safle: Y Cynghorwyr Marged Bowen, Janine Roberts, Roger Thomas, John Williams a Jane Morgan (sydd hefyd yn Glerc). Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol yn y cyfarfod: Y Cynghorwyr Marged Bowen (Cadeirydd) Janine Roberts, Pauline George, John Williams, Roger Thomas, Rhys Williams a Jane Morgan (sydd hefyd yn Glerc). Y Cynghorydd Sir Fiona Walters. Ymddiheuriadau: Aled Williams.
Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.
Materion sy'n codi.
Hyfforddiant ar ddefnyddio'r Diffibriliwr. Mae'r Clerc wedi ceisio cysylltu ag aelod o Ambiwlans Sant Ioan sawl tro ond ni chafwyd ateb hyd yma.
Rhodd o £50.00 tuag at Furlun yr Urdd. Roedd neges wedi dod i law yn dweud bod yr holl gyllid gofynnol wedi ei gael. Felly penderfynwyd canslo'r rhodd hon.
Peilonau arfaethedig trwy Ddyffryn Tywi. Cafwyd adroddiad gan Roger Thomas a fu yn y cyfarfod. Yn dilyn trafodaeth cynigiwyd bod llythyr yn cael ei anfon at y Brenin Siarl a bod llythyr hefyd yn cael ei anfon at Mark Drakeford. Cytunodd Marged Bowen i ysgrifennu'r llythyr.
Lansio Ymgynghoriad Cyhoeddus ar leoliad ysbyty newydd ar gyfer gofal wedi'i gynllunio a gofal brys. Cynhaliwyd trafodaeth a chytunwyd os nad oedd pobl wedi gallu mynychu unrhyw un o'r digwyddiadau galw heibio cyhoeddus gallent lenwi'r holiadur a ddosbarthwyd i fynegi eu barn ar y mater hwn.
Sbwriel ar ymyl y ffyrdd: Dywedodd Y Cyng. Sir Fiona Walters ei bod wedi anfon neges e-bost at Gyngor Sir Gâr a'i bod wedi cael ymateb – roedd Strategaeth newydd ar gyfer sbwriel yn cael ei llunio a byddai'n cael ymateb maes o law.
Cae'r Gymuned. Yn dilyn y cyfarfod safle cytunwyd i gynnal cyfarfod safle arall i drafod ymhellach ym mis Medi. Mae angen tacluso'r gwrych ac mae angen gosod gât. Bydd Janine yn gwneud ymholiadau ynghylch plannu hadau.
Y gyfriflen banc ddiweddaraf a cheisiadau am dâl. Y balans ar 28.03.2023 oedd £10,646.43.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:
Cyngor Sir Gâr ail anfoneb ar gyfer Etholiadau Cymunedol – £161.66. Anfoneb gan Ysgol Talyllychau am logi'r ysgol sy'n daladwy i Gyngor Sir Gâr – £215.00. Siec ad-daliad £40.00 i Tree & Gubb ynghylch cofeb y talwyd amdano eisoes 11.04.2022 gan Co-op Funeral Care.
Cafwyd neges e-bost gan Ian Tame yn nodi bod Arwyn bellach wedi gorffen y fainc ac yn gofyn lle yr hoffai'r Cyngor ei gosod. Byddai ateb yn cael ei anfon yn dweud y bydd y Cyngor yn darparu plac a'i osod ar y fainc, ac yna'n rhoi'r fainc i'r Gymdeithas Gymunedol a all ei lleoli'n briodol. Y Clerc i holi Chris the Cobbler ynghylch geiriad y plac yn Gymraeg a Saesneg "I gofféu Jiwbilî Platinwm y Frenhines Elisabeth II 2022".
Cytunwyd i dalu'r anfoneb ganlynol: £132.00 gan A & D Jones am un fainc bren 6 troedfedd.
Llenwyd Ffurflen Eithrio Lwfans Cynghorwyr mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2023 gan Pauline George, Roger Thomas, Aled Williams a Rhys Williams.
Cafwyd llythyrau diolch gan *Y Lloffwr* ac Ambiwlans Awyr Cymru am roddion a gafwyd.
Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post a gohebiaeth a anfonwyd ymlaen trwy e-bost.
Cafwyd llythyr gan Gyngor Sir Gâr ynghylch Adolygiad Cymunedol ar gyfer holl Gynghorau Tref/Cymuned Sir Gaerfyrddin. Dosbarthwyd a thrafodwyd.
Y Cae Chwarae: Dywedodd y Cyng. Sir Fiona Walters ei bod wedi cael neges e-bost gan Claire Haggerty yn rhoi gwybod bod Grŵp yn cael ei sefydlu yn Nhalyllychau er mwyn ceisio creu cae chwarae. Mae Claire yn gofyn a fyddai'n bosibl i'r Cyngor Cymuned gwrdd â'r Grŵp a'r Ysgol i drafod prosiect y cae chwarae. Cytunwyd i drefnu cyfarfod yn yr Ysgol ar 19 Ebrill am 7pm.

Tendr i dorri glaswellt Cae'r Gymuned. Cafwyd un tendr gan Frankie Lewis – am dri thoriad a strimio cae Cymuned Talyllychau ar gyfer 2023. Tri thoriad am £140 y toriad a TAW 20%. Cytunwyd i'w dderbyn.

Y Fantolen Flynyddol. Cafodd y Datganiad o Gyfrifon fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023 ei ddosbarthu a'i drafod. Cysoni'r Cyfrif: Datganiad o Falans y Cyfrif Banc Cyfredol fel yr oedd ar 31.03.2023. £10,646.43. Sieciau nad oeddent wedi cael eu cyflwyno eto – C.Ff.I. Llanfynydd: £50.00; Apêl y Pabi £40.00. Balans £10,556.43. Cytunodd pawb fod hyn yn gywir. Llofnodwyd gan Jane Morgan (Clerc Dros Dro) a Marged Bowen (Cadeirydd). Cytunwyd gosod copïau ar y ddau hysbysfwrdd ac ar y wefan. Cytunwyd cysylltu â Lyn Llewelyn i fod yn Archwilydd Mewnol.
Cynllunio.
PL/05673 – Dileu Amod 2 ar P6/4672/78 (Bydd meddiannaeth yr annedd arfaethedig yn gyfyngedig i bersonau a gyflogir yn gyfan gwbl neu'n sylweddol mewn amaethyddiaeth ar yr uned fferm y mae'r annedd ynghlwm wrthi a dibynyddion personau o'r fath) – Maes Y Castell, Capel Isaac, Llandeilo, SA19 7EN. Dim gwrthwynebiadau.
PL/05556 – Estyniad unllawr i gefn eiddo. Gosod ffenestri alwminiwm yn lle'r holl ffenestri uPVC presennol – 9 Dyffryn Ig, Talyllychau, Llandeilo, SA19 7YP. Dim gwrthwynebiadau.
Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf.
Diolchodd y Cadeirydd i Kevin Roberts am atgyweirio'r tap yn y fynwent.
Nid oedd unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 9.30 p.m. Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fawrth, 2 Mai 2023, am 7.30 pm yn Ysgol Talyllychau.